NASUWT CYMRU
The Teachers' Union Undeb yr Athrawon

NASUWT Cymru
Clos Greenwood
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: Cymru-Wales@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

Ysgrifennydd Cyffredinol
**Dr Patrick Roach**

Annwyl Gydweithiwr

**Pecyn Hysbysfwrdd NASUWT**

Yn amgaeedig mae copi o'r Pecyn Hysbysfwrdd diweddaraf i chi – mae hwn yn adnodd i'ch cefnogi i sicrhau bod hysbysfwrdd NASUWT yn eich gweithle yn atyniadol, yn llawn gwybodaeth ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd â chynnwys perthnasol.

Mae'n hanfodol diweddaru a gofalu'n dda am eich hysbysfwrdd NASUWT er mwyn helpu i:

- ddenu aelodau newydd a threfnu'r aelodau yn y gweithle'n effeithiol drwy ddangos bod yr Undeb yn cefnogi ei aelodau'n frwd; a
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau am waith yr Undeb yn eu gweithle, eu hardal, eu rhanbarth ac ar lefel genedlaethol.

Mae'r Undeb yn cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau drwy'r flwyddyn gron y gellir eu defnyddio i adnewyddu eich hysbysfwrdd a chynnal diddordeb yr aelodau. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys rhai deunyddiau tymor hwy y gallwch eu diweddaru a'u haddasu ar gyfer eich gweithle fel y bo'r angen.

> *Er nad oes gan gynrychiolwyr undebau llafur hawl statudol i gael cyfleusterau, heblaw'r cynrychiolwyr hynny sy'n cyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â diswyddo grwpiau o weithwyr a throsglwyddo ymgymeriadau, mae NASUWT wedi sicrhau cytundebau gyda'r rhan fwyaf o gyflogwyr.*
>
> *Lle bo'n ymarferol, dylai cyflogwyr ddarparu'r cyfleusterau i gynrychiolwyr undebau llafur y maen nhw eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithlon ac i gyfathrebu'n effeithiol â'u haelodau, cynrychiolwyr eraill a swyddogion llawn amser, ac mae hyn yn cynnwys hysbysfyrddau. (ACAS)*

Mae'r daflen amgaeedig *Beth sydd yn y pecyn hysbysfwrdd*? yn awgrymu sut i ddefnyddio cynnwys y pecyn.

Diolch yn fawr iawn i chi unwaith eto am eich gwaith caled parhaus ar ran ein Hundeb a'i aelodau.

Cofion cynnes

Dr Patrick Roach
**Ysgrifennydd Cyffredinol**